



14.04.21

Annwyl Rieni / Gofalwyr

Gobeithio eich bod chi gyd yn cadw'n iach ac yn ddiogel. Dyma'r diweddariadau cyfredol gan yr ysgol.

### **Dychwelyd i'r Ysgol**

Roedd yn wych i weld ein holl ddisgyblion yn ôl ar y safle yr wythnos hon. Mae'r ysgol unwaith eto yn lle prysur ac hapus.

### **Cadw'n Ddiogel**

Wrth i'n holl ddisgyblion ddychwelyd, yn anffodus nid yw hyn yn golygu dychwelyd i drefn arferol. Bydd ein gweithdrefnau gweithredol ac hylendid llym yn parhau yn ystod tymor yr Haf. Mae pwysigrwydd osgoi trosglwyddo yn dal i fod yn brif flaenoriaeth i ni i gyd, felly, gofynnwn yn garedig i chi barhau i ddilyn rheolau cenedlaethol COVID ynglŷn ag unrhyw newidiadau wrth iddynt ddigwydd.

### **Nosweithiau Rhieni – Cyfnod Allweddol 2**

Bydd Nosweithiau Rhieni ar gyfer disgyblion **Cyfnod Allweddol 2** (Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6) yn cael eu cynnal ar ddydd Llun 26 Ebrill a dydd Mercher 28 Ebrill. Anfonir manylion bwcio'r apwyntiadau hyn atoch yr wythnos hon. Mae'r system o fwco apwyntiadau ar-lein yn parhau yr un peth er mwyn bwco apwyntiad 10 munud ar gyfer yr alwad ffôn. Gofynnwn i chi gadw at yr amser ac hyd er mwyn osgoi unrhyw oedi i apwyntiadau hwyrach.

Bydd yr athrawon yn defnyddio'r rhif cyswllt sydd gyda ni'r barod ar y system. Os hoffech wirio neu newid y rhif ffôn yma, cysylltwch â'r ysgol neu allwch diweddarau'r gwybodaeth yma ar yr App Rhiant.

### **Gwisg Ysgol**

Gofynnwn yn garedig i ddisgyblion barhau i wisgo gwisg ysgol gydag esgidiau tywyll / du lle bo hynny'n bosibl. Disgyblion i wisgo cit Ymarfer Corff i'r ysgol ar eu diwrnodau YC penodol ac unwaith eto, gofynnwn yn garedig mai lliwiau cit yr ysgol yw hyn - top gwyn a gwaelod tywyll.

Caniateir i ddisgyblion blwyddyn 6 wisgo eu hwdis ymadawyr ysgol y tymor hwn yn lle eu siwmpwr ysgol os ydyn yn dymuno gwneud. Mae hwn yn eithriad arbennig ar gyfer Blwyddyn 6 yn unig i wisgo hwdi o'u dewis eu hunain yn ystod eu tymor olaf gyda ni yma. Dylai pob disgybl arall barhau i wisgo lliwiau ysgol ac ni chaniateir iddynt wisgo hwdis lliwgar eu hunain.

### **Dyddiadau i'r Calendar**

Gŵyl y Banc ar ddydd Llun Mai 3ydd.

Hanner Tymor yw Mai 31ain i Fehefin 4ydd.

Diwrnod olaf y Tymor i ddisgyblion yw dydd Gwener Gorffennaf 16eg.

Nid oes gennym unrhyw weithgareddau eraill wedi'u cynllunio ar gyfer Tymor yr Haf.

Rydym yn gobeithio trefnu rhywbeth i ffarwelio ein disgyblion Blwyddyn 6 - darperir manylion maes o law.

Cofiwch i ddilyn ni ar Trydar i weld ein gweithgareddau a gwaith.

Os oes angen unrhyw gymorth arnoch o gwbl cyn hanner tymor, boed yn addysgiadol neu'n fugeiliol, peidiwch ag oedi cyn e-bostio swyddfa'r ysgol ar [admin.broogwr@bridgend.gov.uk](mailto:admin.broogwr@bridgend.gov.uk).

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Cofion cynnes

Sharon Jayne

Pennaeth